



MAES DYSGU A PHROFIAD

# ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu



# Gweledigaeth ac athroniaeth

- Dathlu ieithoedd a diwylliannau, ac ymhyfrydu mewn Cymru ddwyieithog mewn cyd-destun rhyngwladol.
- Dod â'r Gymraeg a'r Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol a'u llenyddiaeth at ei gilydd er lles pawb.
- Datblygu dysgwyr ieithoedd sy'n uchelgeisiol, galluog a hyderus ac sy'n cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg, y Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol drwy amrywiaeth o gyfryngau.
- Creu dysgwyr sydd wedi'u symbylu, drwy brofi cyd-destunau ystyrlon, i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, agweddau cadarnhaol a chymhelliant.

# Y sail resymegol dros newid

- Mae dinasyddion y Gymru fodern yn siarad amryw o ieithoedd, gan adlewyrchu diwylliannau amrywiol; rydyn ni eisiau dathlu hyn ac adeiladu arno.
- Gall archwilio hunaniaethau a diwylliannau drwy ieithoedd gysylltu dysgwyr â phobl, lleoedd a chymunedau yn ein Cymru ddwyieithog a'n byd amlieithog.
- Gwrthdroi'r gostyngiad yn y nifer sy'n astudio ieithoedd drwy roi profiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, a fydd yn eu cymell.
- Mae dysgu sgiliau ieithyddol mewn un iaith yn hybu dealltwriaeth a datblygiad ym mhob iaith
- Diddymu'r gwahaniaethu ffug rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith fel bod pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn unol â phedwar diben y cwricwlwm
- Gwahaniaethu rhwng deilliannau cyflawniad er mwyn adlewyrchu gwahanol gyflymder a dyfnder y dysgu, gan alluogi dysgwyr ac athrawon i adnabod llwybrau dilyniant

# Sut mae'n wahanol?

- Mae'n canolbwyntio ar bwysigrwydd dysgu am ieithoedd, y ffyrdd y maent yn cysylltu â'i gilydd ac â'n diwylliannau a'n hunaniaethau ni, a'r ffyrdd y maent yn eu hadlewyrchu.
- Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol gynradd, bydd dysgwyr wedi cael profiad o wahanol ieithoedd ac wedi gwneud cynnydd yn y Gymraeg, yn y Saesneg ac mewn o leiaf un iaith ryngwladol.
- Pan fydd dysgwyr yn gadael yr ysgol, byddant yn gallu defnyddio y Gymraeg, y Saesneg a'u hieithoedd eraill mewn modd ystyrlon.
- Mae gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu yr un mor bwysig â'i gilydd ac wedi eu grwpio'n sgiliau derbyn a sgiliau mynegiannol
- Llenyddiaeth ar gyfer pob dysgwr: cyfleoedd i archwilio a chreu amrywiaeth o lenyddiaeth yn y Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

# Yr Hyn sy'n Bwysig mewn Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Mae dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd yn ein paratoi i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
- Mae dysgwyr sy'n gwrando ac yn darllen yn effeithiol yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- Mae dysgwyr sy'n siarad ac yn ysgrifennu'n effeithiol yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

# Sut y gwnaethom ni gyrraedd yma?

## Dull gweithredu

- Ystyried cwricwla gwledydd eraill.
- Ystyried cryfderau a gwendidau y rhaglenni astudio presennol ar gyfer Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg ac ieithoedd tramor modern ac elfennau llythrennedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh).
- Arbenigwyr yn cyfrannu at wahanol agweddau ar ieithoedd, llythrennedd a llenyddiaeth.
- Datblygu fframwaith cynnydd ar gyfer unrhyw iaith, o fod ag ychydig neu ddim iaith tuag at ruglder.
- Datblygu gwahanol ddeilliannau cyflawniad i adlewyrchu gwahanol gyd-destunau ar gyfer dysgu iaith.

# Cyfraniadau arbenigwyr

Roedd yr arbenigwyr a gefnogodd y grŵp yn cynnwys y canlynol.

- Neil Mercer, Oracy Cambridge.
- Laurie Smith, Kings College, Llundain.
- Enlli Thomas, Prifysgol Bangor.
- Mererid Hopwood, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- Sioned Davies, Prifysgol Caerdydd.
- Dominic Wyse, UCL Institute of Education.
- Helen Prosser, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Josephine Moate, Prifysgol Jyväskylä.
- Catherine Driver, Ymgynghorydd Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Diane Leedham, Ymgynghorydd Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Elen Roberts, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.
- British Council.
- CAMAU.
- Cymru Wales Classics Hub.
- Estyn.
- Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang.
- Llenyddiaeth Cymru.
- National Deaf Children's Society.
- Cymwysterau Cymru.

## Camau nesaf Cwricwlwm 2022

### Beth fydd yn digwydd nesaf

